**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 8 IONAWR 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Elfyn Williams, Meinir James, Jenny Jones, Carys Thomas, Viv Davies, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Shan Rees, Eifion Jones a Rheinallt Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd Rhagfyr 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen** – Cafwyd cadarnhad eto y byddai ymgynghoriadau statudol y ddau brosiect yn digwydd yn ystod 2026. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Derbyniwyd cadarnhad bod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gwblhau, a bod cefnogaeth wedi'i derbyn gan yr Heddlu, Aelodau Lleol, a'r Cyngor Cymuned ar gyfer y parth dim goddiweddyd. Bydd y Cyngor Sir nawr yn cysylltu â'u Tîm Cyfreithiol i drefnu cyhoeddi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, a fydd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd wneud sylwadau yn yr wythnosau nesaf. Byddai'r Cyngor Cymuned yn cael ei hysbysu a byddai copi o'r hysbysiad yn cael ei ddarparu ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Nodwyd.
4. **Pont Rhydyronnen –** Derbyniwyd cadarnhad bod adolygiad o'r arwyddion rhybuddio presennol yn cael ei gynnal. Byddai arwyddion newydd neu uwchraddiadau yn cael eu gosod maes o law. Nodwyd.
5. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Rhagfyr 2025 wedi'u dosbarthu. Nodwyd.
8. **Tyllau gerllaw'r palmant ym Mro Pedr –** Bydd y Clerc yn edrych mewn i cynnydd y mater.
9. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau eu bod yn ystyried gosod arwydd rhybuddio ychwanegol i dynnu

sylw at y risg o gerddwyr yn croesi, wedi'i leoli'n agosach at y gyffordd wrth deithio o Gaerfyrddin. Byddai hyn yn amodol ar ymyl digonol. Nodwyd.

10. **Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol Cymru** – Ystyriwyd yr Ymgynghoriad ar Fethodoleg Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol Cymru.
11. **Grid Cenedlaethol – Is-orsaf Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor wedi cyfarfod â'r Grid Cenedlaethol i drafod yr Ymgynghoriad Cyn-Gais ar 15eg Rhagfyr 2025 gydag ymateb wedi'i ddatblygu a'i ddarparu i'w ystyried.
12. **A484 Cwmffrwd, ger Cyffordd Ffordd Bolahaul** – Derbyniwyd y Cyngor cadarnhad fod arwyddion ailadrodd wedi gosod a marciau crwn ychwanegol ar y ffordd o fewn y terfyn 30mya i atgyfnerthu'r cyfyngiad cyflymder ymhellach. Nodwyd.
13. **Ysgol Bro Myrddin – Cyfyngiadau Parcio –** Nododd y Cynghorydd Meinir James ei bod wedi derbyn caniatâd arbennig i siarad a gwneud sylwadau ond nid i bleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Roedd y Cyngor Sir wedi nodi, ers gweithredu'r cyfyngiadau parcio newydd yng nghyffiniau'r ysgol, nad oedd unrhyw adborth negyddol wedi'i dderbyn. Felly, roeddynt yn ystyried bod y mesurau wedi gwella rheolaeth traffig heibio'r ysgol. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
2. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Bwletin. Nodwyd.
3. **Llywodraeth Cymru** - Terfyn Gwariant Adran 137 2026-27. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau Hyfforddi. Nodwyd.
5. **Llywodraeth Cymru** – Gwybodaeth am Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad o £10,333.33, sef 1/3 o braesept 2025-26. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am ddigwyddiad ar y cyd â Chymorth Cynllunio Cymru ar 19eg Mawrth 2026. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Neges Blwyddyn Newydd gan y Prif Weithredwr. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Nodyn Datblygu Ymarfer - Hawlfraint a Chymryd Rhan mewn Gweminarau. Nodwyd.
10. **Cymru Wledig** - Galwad Agored: Dewch â'ch Cymuned at ei Gilydd Trwy Fwyd. Nodwyd.
11. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Garddwesti Palas Buckingham. Enwbwyd y Cynghorydd Nicola Jones i fynychu.
12. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
13. **Banc Barclays** – Datganiadau. Llofnodwyd y cysoniad banc gan y Cyng Carys Thomas.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Gwaith Arolwg Coed**

Derbyniwyd cadarnhad bod y gwaith wedi'i gwblhau gan y Cyngor Sir a bod gwaith gan Lampeter Tree Services yn cael ei ddisgwyl.

2. **Diffibrilwyr**

Cadarnhaodd y Clerc fod 3 pad diffibriliwr wedi'u prynu ar gyfer y diffibrilwyr yn Llandyfaelog, Bancycapel ac Idole o Defib Warehouse am gost o £417.00 gyda TAW.

Nodwyd dyfynbrisiau eraill a dderbyniwyd fel a ganlyn:

- Defib Shop £460.00 ynghyd â TAW
- Defib Supplies £421.00 ynghyd â TAW

Cymeradwywyd y pryniant wrth Defib Warehouse.

3. **Contract Torri Gwair 2026**

Dosbarthodd y Clerc dogfen dendro ddrafft ar gyfer y cytundeb torri gwair yng Nghae Idole a Glanmorlais ar gyfer 2026. Bydd y Cyngor yn ystyried y mater yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Rhegfyr gyda chyfanswm cost o £644.00 yn cael ei gytuno.

**9. Addewid Cwrteisi a Pharch SLCC**

Ystyriodd y Cyngor yr Addewid Cwrteisi a Pharch. Cytunodd y Cyngor i fabwysiadu'r Addewid.

**10. Adroddiad Cyllid 2025-26**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 3ydd cwarter ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26 Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd archwiliad o gofnodion ariannol 2025-26.

**11. Adroddiad Praesept, Blaenoriaethau a Chyllideb 2026-27**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a nododd y sefyllfa ariannol debygol ar gyfer diwedd Blwyddyn Ariannol 2025-26.

Ar ôl ystyried y mater, cytunwyd i ohirio penderfyniad tan Gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.

**12. Strategaeth Buddsoddi 2026-27**

Cyflwynodd y Clerc y Strategaeth Fuddsoddi drafft. Cymeradwywyd y Strategaeth fel Polisi'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-27.

**13. Trefniadau Bancio a Thalu**

Cadarnhaodd y Clerc fod taliadau wedi'u gwneud yn llwyddiannus drwy'r trefniadau bancio electronig ym mis Rhagfyr. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y misoedd nesaf.

## 14. Cyfrifon

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Defib Supplies** **£500.40** Padiau (gweler eitem 7.2) £417.00 gyda TAW £83.40
2. **Michael Leefe** **£644.00** Taliad Rhagfyr (gweler eitem 8)

| 3. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Rhagfyr** | **£775.54**<br>**£26.00** | **£22.05**<br>**£30.48** | **£823.30** | **£310.00** | **£53.78** | **£544.07** |

4. **CTEM** **£1,091.74** Tyniadau cyflog Hydref - Rhagfyr.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£1,292.70** Gwellianau LED goleuadau troedffordd £1,077.25 gyda TAW

## 15. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nododd y Clerc y materion canlynol a adroddwyd i'r Cyngor Sir:
   - Dŵr yn cronni ger Penygraig;
   - Goleuadau troedffordd ddim yn gweithio rhwng Idole a Phentrepoeth;
   - Angen ail-lenwi biniau graean yn Idole;
   - Bin yn gorlifo yn Llandyfaelog.
2. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir ar ddychweliad arwydd Pentref Cloigyn yn dilyn ei atgyweiriad.
3. Derbyniwyd cynnig gan eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog i'r Cyngor gymryd rhan mewn cystadleuaeth yn yr eisteddfod ar 7$^{fed}$ Chwefror 2026. Nodwyd hyn.
4. Nodwyd gyda phleser gwasanaethau bysiau ychwanegol a ddarperir trwy Groesyceiliog.
5. Bydd y Clerc yn adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   - Llwybr llithrig rhwng Cwmffrwd a Phibwrlwyd;
   - Tyllau yn y ffordd ar yr A484 ger Danygraig;
   - Gorlifo dŵr mewn draeniau ger Cilgadan;
   - Cronni dŵr ger Llwynhelyg.
6. Bydd y Clerc yn gofyn am bresenoldeb yr Heddlu ar gyfer cyfarfod galw heibio Cymunedol neu gyfarfod Cyngor Cymuned.
7. Trafododd yr aelodau'r effaith debygol ar drefniadau gweinyddu'r Cyngor o'r prosesau sy'n ymwneud â'r Is-orsaf a phrosiectau ynni cysylltiedig yn Llandyfaelog.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5$^{ed}$ Chwefror 2026.**